



dti

CREU ECONOMI CARBON ISEL

Ail adroddiad blynyddol ar
weithrediad y Papur Gwyn
ar Ynni

GORFFENNAF 2005

defra 

Mae'r DTI yn gyrru ein huchelgais i sicrhau 'ffyniant i bawb' trwy weithio i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer llwyddiant busnes yn y DU. Byddwn yn helpu pobl a chwmnïau i ddod yn fwy cynhyrchiol trwy hyrwyddo menter, blaengarwch a chreadigrwydd.

Pleidiwn achos busnesau'r DU gartref a thramor. Byddwn yn buddsoddi'n drwm mewn gwyddoniaeth a thechnoleg o'r radd flaenaf. Diogelwn hawliau gweithwyr a defnyddwyr. A chefnogwn farchnadoedd teg, agored yn y DU, Ewrop a'r byd.

Rhwydwaith Polisi Ynni Cynaliadwy

Cyhoeddir yr adroddiad blynyddol hwn fel rhan o waith y Rhwydwaith Polisi Ynni Cynaliadwy (SEPN).

Rhwydwaith yw SEPN sy'n cynnwys adrannau'r Llywodraeth, Gweinyddiaethau Datganoledig, rheoleiddwyr a chyrrff allweddol eraill sy'n gyfrifol ar y cyd am gyflwyno'r Papur Gwyn ar Ynni, '*Dyfodol Ein Hynni – creu economi carbon isel*' a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2003.

<http://www.dti.gov.uk/energy/sepn/index.shtml>

Dyma aelodau SEPN:

- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol Lloegr
- Gweithrediaeth yr Alban
- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Swyddfa Cymru
- Swyddfa Gogledd Iwerddon
- Swyddfa'r Alban
- Swyddfa'r Cabinet
- Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog
- Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan
- Swyddfa'r Prif Weinidog
- Trysorlys Ei Mawrhydi
- Y Grŵp Ynni Rhanbarthol
- Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Yr Adran Addysg a Sgiliau
- Yr Adran Datblygiad Rhyngwladol
- Yr Adran Drafnidiaeth
- Yr Adran Masnach a Diwydiant
- Yr Uned Cyd-gysylltu Rhanbarthol
- Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
- Yr Ymddiriedolaeth Garbon

Cynnwys yr adroddiad

Rhagair

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant a'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Golwg gyffredinol

- 1 Y 12 mis diwethaf a'r ffordd ymlaen
- 2 Lleihau allyriadau carbon
- 3 Dibynadwyedd ynni
- 4 Marchnadoedd ynni cystadleuol (gan gynnwys prisiau ynni)
- 5 Mynd i'r afael â chyni tanwydd
- 6 Adrodd ychwanegol yn dilyn Deddf Ynni 2004
 - Ffynonellau ynni a thechnolegau
 - Arbenigedd gwyddonol a pheirianyddol
 - Effeithlonrwydd ynni

Atodiadau

- Adroddiadau a chyhoeddiadau perthynol

Deddf Ynni Cynaliadwy 2003

Cyhoeddir yr adroddiad yn unol â rhwymedigaethau'r Ysgrifennydd Gwladol dan adran 1 Deddf Ynni Cynaliadwy 2003. Mae'n disgrifio'r cynnydd a wnaed yn y cyfnod adrodd 24 Chwefror 2004 hyd 23 Chwefror 2005 tuag at: dorri allyriadau carbon y Deyrnas Unedig; cynnal dibynadwyedd cyflenwadau ynni'r DU; hybu marchnadoedd ynni cystadleuol yn y DU; a lleihau nifer y bobl sy'n byw mewn cyni tanwydd yn y DU. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddyddiad ei gwblhau.

Rhagair

Heddiw, fwy nag erioed, mae trafodaeth egniol ar fater ynni yn genedlaethol a rhyngwladol, nid lleiaf ymysg arweinwyr y DU. Y llynedd yn yr adroddiad blynyddol, amlinellwyd y strategaethau yr oeddem yn eu llunio ar gyfer cyflawni ein nodau yn y tymor hir. Hefyd cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredu Effeithlonrwydd Ynni; ein strategaeth CHP; yr ail adroddiad blynyddol ar dargedau cyni tanwydd a'n cynllun gweithredu cyni tanwydd. Dyma'r camau cyntaf, pwysig tuag at weithredu strategaeth uchelgeisiol ar gyfer y 50 mlynedd nesaf.

Ond rydym yn sylweddoli fod angen i ni wneud mwy er mwyn cyflawni'r nodau a osodwyd. Mae'r Papur Gwyn yn gosod fframwaith tymor hir ar gyfer datblygu polisi gyda phedwar amcan allweddol: ein rhoi ein hunain ar y llwybr tuag at dorri allyriadau carbon deuocsid, cynnal dibynadwyedd cyflenwadau ynni, hybu marchnadoedd ynni cystadleuol yn y DU a thu hwnt, a sicrhau y bydd pob cartref wedi'i wresogi yn ddigonol a fforddiadwy. Rydym yn parhau'n ymrwymedig i'r nodau hyn.

Ond ni cheisiodd y Papur Gwyn nodi holl fanylion y polisiau hynny ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Bydd y Llywodraeth yn parhau i arolygu'r cynnydd yn erbyn nodau'r Papur Gwyn ar Ynni a'r dewisiadau o ran eu cyflawni; mae hyn yn hanfodol os ydym i barhau ar y trywydd i wireddu'r strategaeth. Er enghraifft, mae gwaith ar y gweill i gynllunio rhaglen newydd, sef Rhaglen Newid Hinsawdd; bydd hyn yn cynnwys arolygu ein holl ddewisiadau polisi o ran effeithlonrwydd ynni yn ogystal ag edrych ar ein dewisiadau o ran cyflenwadau ynni.

Ochr yn ochr â'r adroddiad blynyddol hwn ar y strategaeth ynni, rydym hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Cyni Tanwydd, adroddiad arall newydd sef Adroddiad Blynyddol ar Sicrwydd Cyflenwadau, a'n Dangosyddion Ynni.

Mae ein gwaith gyda phartneriaid rhyngwladol yn arbennig o arwyddocaol eleni, gyda'r DU yn Llywyddu'r G8 a'r Undeb Ewropeaidd (UE). Rydym wedi ceisio gweithio drwy'r Llywyddiaethau hyn i hyrwyddo'r amcanion a ddisgrifir gennym yn y 'Strategaeth Ynni Ryngwladol', a lansiwyd ar y cyd gan FCO, DTI a DEFRA ar 28 Hydref 2004. Mae'r amcanion yn cynnwys lleihau ein hallyriadau ein hunain ac allyriadau gwledydd datblygedig eraill, yn ogystal â chael economïau sy'n datblygu i ystyried ffyrdd o fodloni eu gofynion ynni mewn modd cynaliadwy. Yn Uwchgynhadledd Gleneagles mabwysiadodd yr G8 gynllun gweithredu i fanteisio ar dechnolegau glanach a fydd yn bodloni ein gofynion ynni a diogelu'r hinsawdd, gan gynnwys mesurau i ddatblygu technolegau megis bioynni a glo glanach, i hybu effeithlonrwydd ynni, a chyllido buddsoddiad mewn technolegau glân yn yr economïau sy'n datblygu.

Mae'r ffaith fod y DU ar y trywydd i ragori ar ei rhwymedigaethau dan Brotoocol Kyoto yn golygu ein bod eisoes yn arweinwyr ym maes ymdrin â newid hinsawdd. Ond erys rhagor i'w wneud er mwyn cyrraedd ein nodau domestig fel y'u nodir ym maniffesto'r Llywodraeth, sef cael gostyngiad o 20% mewn allyriadau carbon deuocsid o gymharu â lefelau 1990 erbyn 2010. Trwy arolygu'r cynnydd, cawn weld sut i fynd yn ôl ar y trywydd. A bydd hynny'n golygu ymdrech ar y cyd yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Erys yr heriau; erys hefyd ein hymrwymiad i ddarparu cyflenwadau ynni cynaliadwy, dibynadwy a fforddiadwy trwy farchnadoedd cystadleuol.



Margaret Beckett

Y Gwir Anrhydeddus
Margaret Beckett AS
Ysgrifennydd Gwladol dros
yr Amgylchedd, Bwyd a
Materion Gwledig.



Alan Johnson

Alan Johnson AS
Ysgrifennydd Gwladol dros
Fasnach a Diwydiant.

1. Y 12 mis diwethaf a'r ffordd ymlaen: Golwg gyffredinol

- 1.1 Ar ddiwedd y 12 mis cyntaf yn dilyn Papur Gwyn ar Ynni 2003 gallem adrodd bod cynnydd da wedi bod yn erbyn ein nodau tymor byr. Bu parhad yn y cynnydd hwnnw yn yr ail 12 mis. Fodd bynnag, bu'r ail flwyddyn hefyd yn gyfnod o sefydlu rhagor ar seiliau'r strategaeth ynni 50 mlynedd, a chynllunio'r llwybr er mwyn cyrraedd ein targedau a sefydlu cynlluniau ar gyfer y tymor hir.

Deddf Ynni 2004

- 1.2 O ran ymrwymadau'r Papur Gwyn ar Ynni lle'r oedd angen deddfwriaeth sylfaenol, fe'u bodlonwyd trwy gyfrwng y Ddeddf Ynni a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 22 Gorffennaf 2004. Mae'r Ddeddf yn cefnogi ymrwymiad y Llywodraeth i bolisi ynni cynaliadwy ar gyfer y dyfodol ond gan ysgwyddo cyfrifoldeb dros ymdrin ag etifeddiaeth niwclear y gorffennol. Mae'n rhoi ar waith ymrwymadau ym Mhapur Gwyn ar Ynni 2003 a Phapur Gwyn 2002 "Rheoli'r Etifeddiaeth Niwclear".

Llwyddiannau arwyddocaol eleni

- 1.3 Dyma rai o uchafbwyntiau'r prif ddatblygiadau tuag at bedwar amcan y Papur Gwyn ar Ynni dros y 12 diwethaf:
- Daeth **Protocol Kyoto** i rym ar 16 Chwefror 2005. Dyma'r cytundeb rhyngwladol cyntaf i osod targedau rhwymol ar gyfer lleihau allyriadau ar wledydd datblygedig a hyd yma fe'i cadarnhawyd gan 150 o wledydd.
 - Ni ellir tanamcangyfrif pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol, ac rydym wedi dangos hyn trwy wneud newid hinsawdd yn thema allweddol yn ein **Llywyddiaeth o'r G8** gan ganolbwyntio'n benodol ar ymwneud ag economïau sy'n datblygu wrth i'w hanghenion ynni dyfu:
 - Y gynhadledd wyddonol ryngwladol a noddwyd gan Defra, sef "Osgoi Newid Hinsawdd Peryglus" (gweler www.stabilisation2005.com) ar 1-3 Chwefror 2005 a fu'n ystyried effeithiau gwahanol lefelau nwyon tŷ gwydr ar newid hinsawdd;

- Bwrdd Crwn y Gweinidogion ym mis Mawrth ar Ynni a'r Amgylchedd, pryd y bu Gweinidogion, a chynrychiolwyr o fusnesau a chyrrff rhyngwladol ac anllywodraethol yn ystyried ffyrdd ymarferol o fynd i'r afael â newid hinsawdd a blaenoriaethau ar gyfer gwaith pellach (gweler www.defra.gov.uk/corporate/international/energy-env/index.htm).
- Cytunodd **Cyngor y Gwanwyn yr UE** i ystyried, gyda phartïon eraill, amrediad o dargedau ar gyfer lleihau allyriadau (15-30% erbyn 2020) er mwyn bwrw ymlaen â'r drafodaeth ar dargedau tymor canolig a thymor hir.
- Dechreuodd **Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE** (UE ETS) ym mis Ionawr 2005. Amcan y cynllun yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y ffordd fwyaf cost effeithiol, ac ar yr un pryd sefydlu pris y farchnad ar gyfer carbon er mwyn ysgogi arbedion effeithlonrwydd a datblygiad technolegau newydd.
- Cwblhawyd **Cytundeb Fframwaith** newydd **gyda Norwy** a allai sicrhau hyd at 20 y cant o ofynion nwy y DU yn y dyfodol – datblygiad arwyddocaol iawn wrth i ni symud tuag at ddod yn fewnforiwr net o nwy.
- Lansiodd y **Strategaeth Ynni Ryngwladol** gan FCO, DTI a Defra ar 28 Hydref 2004 sy'n ymdrin â'r angen brys i sicrhau gweithredu byd-eang i fynd i'r afael â newid hinsawdd a phwysigrwydd cyflwyno cyflenwadau ynni diogel a fforddiadwy. Ei neges greiddiol yw fod cysylltiad anwahanadwy rhwng y ddwy sialens a bod angen ymateb cydlynol ar y cyd. Mae FCO, DTI a Defra yn cydweithio i ddarparu'r ymateb polisi hwnnw.
- Llwyddwyd i ragori ar ein targed ar gyfer cynllun **Warm Front** yn 2004. Cynllun yw hwn sy'n ein helpu i godi teuluoedd o gynt tanwydd. Hyd yma, mae'r Cynllun wedi helpu dros 1 miliwn o deuluoedd bregus i wresogi eu cartrefi yn fwy fforddiadwy. Rydym yn rhoi £140 miliwn yn ychwanegol at y rhaglen Warm Front dros flynyddoedd 2005-8 – cyfanswm o £251 miliwn o arian y Llywodraeth i ymdrin â chyni tanwydd yn 2007-8.
- Daeth **Gorchymyn Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy** 2005 i rym ar 1 Ebrill 2005. Mae'r newidiadau i'r Rhwymedigaeth yn cynnwys cynnydd yn lefel y Rhwymedigaeth i 15.4% erbyn 2015/16; bydd hyn yn rhoi hyder ychwanegol i fuddsoddwyr. Mae rhagor o fanylion yn http://www.dti.gov.uk/renewables/renew_2.2.4.htm. Mewn deddfwriaeth yng Ngogledd Iwerddon ym mis Chwefror 2005 cyflwynwyd Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy i ddod i rym yno o 1 Ebrill 2005, i weithredu gyda Rhwymedigaethau Prydain Fawr o fewn marchnad sengl ledled y DU ar gyfer Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (tystysgrifau ROC).
- Daeth **Trefniadau Masnachu a Thrawsyrru Trydan Prydain** (BETTA) i fodolaeth ym mis Ebrill 2005. Mae BETTA yn cynnig un set gyffredin o reolau masnachu fel y gellir masnachu trydan yn rhydd ar draws Prydain a set gyffredin o reolau ar gyfer rhoi mynediad at y rhwydwaith trawsyrru a chodi amdano.

- Sefydlwyd yr **Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)** ar 1 Ebrill 2005. Pennwyd ei gyfansoddiad yn Neddf Ynni 2004. Bellach ysgwyddodd y cyfrifoldeb am fwrw ymlaen i lanhau 20 safle niwclear sifil yn y DU ac mae'n datblygu strategaeth ar gyfer ei gynlluniau i gyflawni'r gwaith hwn.
- Cyhoeddodd y Llywodraeth fwrriad i ddyblu lefel gweithgarwch yr **Ymrwymiad Effeithlonrwydd Ynni (EEC)** o 2005 i 2011, yn amodol ar arolwg yn 2007. Disgwylir y bydd hyn yn arwain at fuddsoddiad o dros £2 biliwn rhwng 2005 a 2011, gan arbed £4 biliwn i gwsmeriaid oddi ar eu biliau hyd at 2020.
- Ym mis Gorffennaf 2004 fe gyhoeddodd bapur gwyn ar drafnidiaeth sef **'Dyfodol Trafnidiaeth: rhwydwaith ar gyfer 2030'**.
- Cyhoeddwyd ein **strategaeth Technolegau Lleihau Carbon** (<http://www.dti.gov.uk/energy/coal/cfft/catstrategy.shtml>) ym mis Mehefin 2005. Mae hon yn nodi'r rhaglen waith sydd ei hangen er mwyn cefnogi datblygiad technolegau tanwydd ffosil cynaliadwy sy'n defnyddio glo a nwy naturiol yn bennaf. Mae'r Strategaeth yn cydnabod y bydd tanwyddau ffosil yn parhau'n ffynhonnell bwysig o ynni am ddegawdau eto, nid yn unig yn y DU ond mewn gwledydd sy'n datblygu megis Tsieina ac India, a bod angen datblygu a defnyddio technolegau a fydd yn arwain at leihad sylweddol mewn allyriadau CO₂ o ddefnyddio'r tanwyddau hyn. Ystyrir mai gwell effeithlonrwydd hylosgi ac, yn ddiweddarach, technoleg Dal a Storio Carbon, fydd y technolegau allweddol er mwyn cyflawni'r amcan hwn.

Bwrw ymlaen â'r strategaeth ynni

1.4 Dyma rai o'r datblygiadau allweddol a fydd yn digwydd yn 2005-06:

- **Llywyddiaeth yr G8** O ran newid hinsawdd, llwyddodd Uwchgynhadledd Gleneagles ar 6-8 Gorffennaf i ddod i gytundeb bod Newid Hinsawdd yn digwydd nawr, fod gweithgarwch dynol yn cyfrannu ato a bod yn rhaid i ni fynd i'r afael â'r mater ar fyrder. Mabwysiadodd arweinwyr yr G8 gynllun gweithredu i fanteisio ar dechnolegau glanach i gwrdd â gofynion ynni a diogelu'r hinsawdd, gan gynnwys mesurau i ddatblygu technolegau megis bioynni a glo glanach, er mwyn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni, ac i gyllido buddsoddiad mewn technolegau glân yn yr economïau sy'n datblygu.

Cytunwyd hefyd ar ddeialog newydd lle bydd yr G8, yr economïau sy'n datblygu a sefydliadau rhyngwladol allweddol yn creu llwybr at gytundeb ôl Kyoto. Bydd y Deialog newydd rhwng yr G8 + 5 ac eraill yn cyfarfod am y tro cyntaf yn y DU ym mis Tachwedd.

- **Llywyddiaeth yr UE** Yn ystod ail hanner 2005 y DU fydd yn Llywyddu'r Cyngor Ewropeaidd. Bydd hyn yn gyfrwng i ni barhau i hyrwyddo marchnadoedd agored, teg ar draws Ewrop a hybu diogelwch tymor hir y cyflenwadau yn ogystal â pharhau i ganolbwyntio ar weithredu rhyngwladol er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd, a ddechreuwyd trwy ein Llywyddiaeth o'r G8.
- Dechreuodd **Arolwg o Raglen Newid Hinsawdd** (CCPR) y DU ym mis Medi 2004. Mae'n edrych ar berfformiad y polisiau presennol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a charbon deuocsid a'r gwahanol bolisiau y gellid eu sefydlu yn y dyfodol. Fel rhan o'r arolwg, cynhaliwyd ymarferiad ymgynghori ffurfiol i ofyn barn budd-ddeiliaid, a ddaeth i ben ar 2 Mawrth 2005. Fe fydd yr Arolwg Effeithlonrwydd Ynni a'r astudiaeth dichonoldeb sy'n edrych ar Rwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy yn dod i ben cyn bo hir a rhoddir ystyriaeth i'r canlyniadau yng nghyd-destun y Rhaglen Newid Hinsawdd, y bwriedir ei chyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn.
- Rydym yn arolygu'r **Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy** er mwyn ei gwneud yn fwy effeithiol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol i geisio barn am nifer gyfyngedig o newidiadau; bellach daeth hwnnw i ben a bydd y canlyniadau yn hysbysu ymgynghoriad statudol a fydd yn manylu ar fwriadau'r Llywodraeth, yn nes ymlaen yn y flwyddyn.
- Fe fydd **strategaeth** y Llywodraeth **ar gyfer hyrwyddo microgynhyrchu** wedi'i chwblhau erbyn Ebrill 2006, gydag ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Mehefin a Medi 2005. Nod y strategaeth fydd ceisio adnabod y ffyrdd mwyaf priodol a chost effeithiol o hyrwyddo cynhyrchu gwres a thrydan ar raddfa fechan gan ddefnyddio ffynonellau isel eu carbon (er enghraifft, solar ffotofoltaidd, solar thermol, micro-wynt, pypiau gwres, a microCHP). Yn ogystal, fe fydd y strategaeth yn edrych ar faterion yn ymwneud â Rheoliadau Cynllunio a pholisi cynllunio, materion technegol o ran cysylltu â'r rhwydwaith dosbarthu, mesuryddion a'r Rhaglen Adeiladau Carbon Isel.
- Ar 31 Mawrth cyhoeddodd y Llywodraeth ddogfen gyfathrebu yn amlinellu ymagwedd y Llywodraeth â **Cham II yr UE ETS** gan wahodd safbwyntiau ar nifer o faterion penodol. Ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth yn casglu sylfaen tystiolaeth i hysbysu'r penderfyniadau a wneir yng Ngham II (2008-2012) y Cynllun Dyrannu Cenedlaethol (NAP). Bydd ymgynghoriad y CCPR, sylwadau gan fudd-ddeiliaid a chynnyrch nifer o gytundebau ymgynghori yn cyfrannu at hyn; hefyd rhoddir ystyriaeth i farn Aelod-wladwriaethau eraill. Bwriad y Llywodraeth yw ymgynghori ar faterion allweddol Cam II ym mis Gorffennaf 2005. Mae'r Gyfarwydddeb yn nodi fod yn rhaid cyflwyno'r NAP i'r Comisiwn erbyn Mehefin 2006 ac ar sail yr amserlen honno, dylai NAP drafft fod ar gael tua diwedd y flwyddyn.

- Lansiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei ddogfen ymgynghorol **“Ynni Cymru: trywydd ar gyfer dyfodol ynni glân, isel mewn carbon a mwy cystadleuol yng Nghymru”** ar 20 Mehefin¹. Mae’n nodi gweledigaeth y Cynulliad sef gwneud Cymru yn llwyfan ar gyfer ynni glân ac effeithlonrwydd ynni a hefyd sicrhau cyflenwadau cystadleuol, sicr; mae’r ddogfen hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu sy’n dangos cerrig milltir o ran cynnydd. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 12 Medi 2005.
- Mae Gweithrediaeth yr Alban yn arolygu **Rhaglen Newid Hinsawdd yr Alban** ochr yn ochr ag arolwg y DU. Mae’r arolwg yn ystyried i ba raddau y gellir cryfhau’r mesurau presennol a chyflwyno rhai newydd mewn meysydd a ddatganolir i Weinidogion yr Alban. Ar 30 Mehefin 2005, cyhoeddodd Prif Weinidog yr Alban ymrwymiad y Weithrediaeth i sefydlu targedau newid hinsawdd ar gyfer yr Alban mewn meysydd y mae’r Gweinidogion yn gyfrifol amdanynt. Datblygir y rhain i’w cynnwys yn Rhaglen ddiwygiedig yr Alban, a gyhoeddir cyn diwedd 2005.
- Dechreuodd ail gam yr **Ymrwymiad Effeithlonrwydd Ynni** ar 1 Ebrill 2005, gyda tharged o 130 TWh², a fyddai’n dyblu, yn fras, y lefelau gweithgarwch o gymharu â’r cam cynt, gan ragfynegi arbedion o 0.68MtC erbyn 2010.

1 www.wales.gov.uk/subitradeindustry/content/consultations/ewrm-map-e.pdf

2 Gosodir targed yr EEC mewn tanwydd – TWh safonedig, disgownt oes.


2. Lleihau Allyriadau Carbon

Ymrwymadau

Sefydlodd y Llywodraeth nod newydd ar gyfer polisi ynni: ein rhoi ein hunain ar y llwybr i dorri allyriadau carbon deuocsid y DU 60 y cant erbyn 2050, gyda chynnydd gwirioneddol erbyn 2020. Hefyd, mae'r DU yn parhau'n ymrwymedig i ymrwymiad Protocol Kyoto i leihau nwyon tŷ gwydr i 12.5 y cant islaw lefelau 1990 erbyn 2008-12. Yn ei maniffesto diweddar, datganodd y Llywodraeth ei hymrwymiad i ostyngiad o 20 y cant mewn allyriadau carbon deuocsid islaw lefelau 1990 erbyn 2010.

Y cynnydd hyd yma

Cynnydd yn erbyn targedau rhyngwladol a domestig ar gyfer lleihau allyriadau



- 2.1** Daeth Protocol Kyoto i rym ar 16 Chwefror 2005. Targed y DU yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 12.5 y cant islaw lefelau'r flwyddyn sylfaen erbyn 2008-12. Mae'r amcangyfrifon dros dro diweddaraf (Ffigwr 1) yn dangos y gallai cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU yn 2004 fod wedi gostwng 12.5 y cant o dan lefelau 1990. Mae'r rhagamcaniadau cyfredol yn dangos y dylent fod tuag 20 y cant islaw'r lefelau hynny erbyn 2010. Felly rydym yn dal ar y trywydd cywir i gyflawni ein targed dan Brotocol Kyoto.

- 2.2** Yn ychwanegol at ein hymrwymiad rhyngwladol, mae gan y DU hefyd ddau nod cenedlaethol i leihau allyriadau carbon deuocsid. Disgrifiodd y Papur Gwyn ar Ynni nod cenedlaethol i symud tuag at ostyngiad o 20 y cant mewn allyriadau carbon deuocsid islaw lefelau 1990 erbyn 2010. Roedd y Papur Gwyn ar Ynni hefyd yn ymrwymo i'n gosod ar y llwybr tuag at leihau allyriadau carbon deuocsid oddeutu 60 y cant erbyn tua 2050, gyda chynnydd gwirioneddol erbyn 2020. Yn ôl amcangyfrifon dros dro, roedd yr allyriadau carbon deuocsid ar gyfer 2004 tua 4.2 y cant yn is nag yn 1990 a rhagfynegir y byddant tua 14 y cant yn is erbyn 2010.
- 2.3** Cydnabyddwn fod angen gwneud mwy er mwyn i ni gyflawni ein nodau cenedlaethol ar gyfer allyriadau carbon deuocsid. Wrth i Raglen Newid Hinsawdd y DU gael ei harolygu ar hyn o bryd, mae cyfle i ni archwilio'r amryfal bolisiau y gallem eu sefydlu yn y dyfodol, i'n rhoi yn ôl ar y trywydd tuag at ein nodau ar gyfer 2010 a thu hwnt o ran lefelau carbon deuocsid.
- 2.4** Dywedodd y Papur Gwyn ar Ynni y byddem yn canolbwyntio ein hymdrechion amgylcheddol yn bennaf trwy fasnachu allyriadau, cynyddu ein gallu ym maes ynni adnewyddadwy a gwella effeithlonrwydd ynni.

Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE

- 2.5** Dechreuodd Cam 1 Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE (UE ETS) ym mis Ionawr 2005, pryd yr oedd yn rhaid i weithredwyr ddechrau monitro allyriadau. Cyhoeddwyd y Cynllun Dyrannu Cenedlaethol cymeradwy ar gyfer cam cyntaf masnachu allyriadau (2005 – 2007) ddiwedd Mai 2005. Dyrannwyd 736 miliwn o lwfansau i dros 1,000 o weithredwyr yn y DU. Fe wnaeth bron i 200 o'r gweithredwyr a oedd yn rhan o'r Cynllun agor eu cyfrifon Cofrestr yn ystod yr wythnos honno. Cafwyd y masnachu cyntaf ar y farchnad ar y pryd yr wythnos honno hefyd. Trwy'r Gofrestr gellir trosglwyddo lwfansau i gyfrifon eraill, o fewn y DU ac mewn gwledydd eraill sy'n rhan o'r Cynllun. Dylai'r UE ETS arwain at leihau allyriadau carbon deuocsid o 12,000 gorsaf bŵer a safleoedd a gynhwysir ar draws yr UE, gyda safleoedd y DU yn cyfrannu gostyngiadau o oddeutu 65 miliwn tunnell fetrig o garbon deuocsid (tua 8 y cant) o dan y rhagamcaniadau ar gyfer busnes arferol, erbyn 2007. Mae gwaith eisoes ar y gweill i ymgynghori â diwydiant ynghylch gweithredu Cam 2 y Cynllun a fydd yn dechrau yn 2008.

Mae'r Llywodraeth yn cymryd camau cyfreithiol yn erbyn y Comisiwn mewn anghydfod ynghylch lefelau terfynol y lwfansau a gynigir ar gyfer Cam 1 y cynllun. Bydd y Llywodraeth yn gwneud cais i'r achos gael ei gwblhau ar fyrder. Gobeithir derbyn barn y llys yn hanner cyntaf 2006.

Mae gweithredu'r UE ETS yn fater a gafodd ei ddatganoli yn y DU. O'r herwydd, datblygwyd penderfyniadau polisi gan Lywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r gweithredu gan y Llywodraeth a ddisgrifir uchod yn weithredu ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

Cynyddu'r Gallu Ynni Adnewyddadwy

- 2.6** Daeth Gorchymyn Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy 2005 i rym ar 1 Ebrill 2005. Bu'r newidiadau yn y Rhwymedigaeth yn destun ymgynghoriad statudol yn ystod 2004. Mae'r newidiadau yn cynnwys: codi'r proffil i 15.4% erbyn 2015/2016; cydnabyddiaeth y ddwy ffordd i Dystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon a gyhoeddir dan drefn newydd Rhwymedigaeth Gogledd Iwerddon a rhai'r Rhwymedigaeth ym Mhrydain; un drefn ailgylchu ar gyfer y gwahanol gronfeydd prynu, mwy o hyblygrwydd ar gyfer cynhyrchwyr bach a mesurau i warchod y gronfa brynu.
- 2.7** Mae'r Llywodraeth yn cynnal Arolwg o'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy hefyd, ar ôl ymgynghori ynghylch cylch gwaith yr arolwg hwn ym mis Awst 2004. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghorol ragarweiniol gan y DTI ym mis Mawrth 2005 i holi barn am nifer gyfyngedig o newidiadau i'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol: ymestyn proffil y Rhwymedigaeth; newid rhai agweddau ar y trefniadau gweithio; addasu'r rheolau ar gyfer technolegau isel eu cost ac ynni o wastraff cymysg. Rhoddwyd sylw i sefyllfa Gwres a Phŵer Cyfun hefyd, yn ogystal â rhai materion technegol manwl neu faterion diffiniol. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 13 Mehefin a bydd ei gasgliadau yn cyfrannu at ymgynghoriad statudol yn nes ymlaen yn y flwyddyn a fydd yn disgrifio safbwynt y Llywodraeth.
- 2.8** Datganiad Polisi Cynllunio 1 – Cyflwyno Datblygu Cynaliadwy (PPS1): cyhoeddwyd hwn ym mis Chwefror 2005, ac mae'n disgrifio fframwaith polisi'r Llywodraeth ar gyfer y system gynllunio, gan ganolbwyntio ar egwyddorion craidd datblygu cynaliadwy. Eglurai y dylai polisiâu a phenderfyniadau cynllunio fod yn seiliedig ar ymagwedd integredig â datblygu cynaliadwy. O ran gwneud defnydd doeth o adnoddau naturiol, mae PPS 1 yn ceisio hybu ac annog y defnydd o adnoddau adnewyddadwy (e.e. trwy ddatblygu ynni adnewyddadwy). Dylid anelu at leihau'r angen i ddefnyddio adnoddau newydd dros oes y datblygiad, er enghraifft trwy hyrwyddo adeiladau sy'n effeithiol o ran ynni.
- 2.9** Datganiad Polisi Cynllunio 22 (PPS22) ar Ynni Adnewyddadwy (cyhoeddwyd ym mis Awst 2004) a'r ddogfen atodol Canllaw i'r PPS22 (cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2004): mae'r rhain yn gam sylweddol tuag at hwyluso cyflwyno mwy o ddatblygu ynni adnewyddadwy. Gan gydnabod bod angen ymgynghori â'r Awdurdodau Cynllunio a Thrwyddedu ac ymgynghorai statudol mor fuan â

phosib er mwyn sicrhau y rhoddir y sylw priodol i unrhyw gyfyngiadau ar y datblygiad arfaethedig, mae PPS22 yn cynnig fframwaith polisi eglur, cadarnhaol er mwyn dwyn cynigion ynni adnewyddadwy gerbron a phenderfynu arnynt. Yng Nghymru, datblygwyd Nodyn Cyngor Technegol (TAN8) yn ychwanegol at y polisi ym Mholisi Cynllunio Cymru a Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog ar Ynni Adnewyddadwy. Mae TAN8 yn cyfeirio at ystyriaethau cynllunio defnydd tir ym maes ynni adnewyddadwy, ond ceir y cyd-destun ym mholisi ynni'r DU ac yn genedlaethol. Targed Llywodraeth Cynulliad Cymru yw cynhyrchu 4 TWh o drydan y flwyddyn trwy ynni adnewyddadwy erbyn 2010 a 7 TWh erbyn 2020. Er mwyn cwrdd â'r targedau hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dod i'r casgliad fod angen sefydlu gallu ychwanegol o 800 MW trwy ffynonellau gwynt ar y tir a 200 MW arall o ffynonellau gwynt alldraeth a thechnolegau adnewyddadwy eraill. Felly, mae cyflawni'r targedau hyn trwy'r system gynllunio wrth graidd TAN8.

- 2.10** Mae'r DTI ac Ofgem yn cyhoeddi dogfen ymgynghorol ar y cyd ar y drefn reoleiddio ar gyfer trawsyrru alldraeth ym mis Gorffennaf yr un pryd ag ymgynghoriad gan y DTI ar addasu costau trawsyrru ar gyfer generaduron adnewyddadwy yng Ngogledd yr Alban. Bydd y ddau ymgynghoriad yn bwysig o ran cysylltu ynni adnewyddadwy â'r Grid.

Effeithlonrwydd Ynni

- 2.11** Nododd y Papur Gwyn ar Ynni mai effeithlonrwydd ynni oedd y ffordd saffaf, fwyaf cost effeithiol o fodloni holl nodau'r polisi ynni, yn enwedig y nod cenedlaethol o leihau allyriadau carbon deuocsid erbyn 2010. Disgwyliwn i dros hanner y gostyngiadau mewn allyriadau yn ein Rhaglen Newid Hinsawdd bresennol – tua 10 MtC y flwyddyn erbyn 2010 – ddigwydd o ganlyniad i effeithlonrwydd ynni. Ymhellach ymlaen credwn y gall effeithlonrwydd ynni gyfrannu tua hanner yr arbedion ychwanegol o 15-25 MtC sy'n debygol o fod yn angenrheidiol gennym erbyn 2020.
- 2.12** Effeithlonrwydd Ynni: Cynllun y Llywodraeth ar gyfer Gweithredu: cyhoeddwyd y ddogfen hon ym mis Ebrill 2004, ac mae'n disgrifio pecyn o fesurau i gyflwyno newid cam yng ngwelliant effeithlonrwydd ynni ym mhob rhan o'r economi – er mwyn arbed 12 miliwn tunnell fetrig o garbon y flwyddyn erbyn 2010. Mae hyn 20 y cant yn uwch na lefelau'r arbedion a ragwelwyd adeg y Papur Gwyn a bydd yn golygu arbedion o dros £3 biliwn y flwyddyn ar filiau ynni i deuluoedd a busnesau yn y DU. Mae mesurau effeithlonrwydd ynni yn cael eu gwerthuso ymhellach trwy'r Arolwg Arloesi ym maes Effeithlonrwydd Ynni, a fydd yn gyfraniad allweddol at yr arolwg ehangach o Raglen Newid Hinsawdd y DU. Cyn bo hir bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn lansio gwefan Arbed Ynni Cymru, yn un man cyswllt ar gyfer unigolion sy'n chwilio yn ôl categori am ddarparwyr cyngor, cymorth ariannol,

arweiniad cyffredinol a hyfforddiant yng nghyd-destun effeithlonrwydd ynni yn ogystal ag ynni adnewyddadwy ar raddfa fechan.

- 2.13** Cafodd y Rheoliadau Adeiladu eu newid yn ddiweddar i godi safonau effeithlonrwydd ynni ar gyfer bwyleri gwres canolog. O'r 1af Ebrill bydd yn rhaid i fwyleri nwy a osodir mewn cartrefi presennol fod ag effeithlonrwydd tymhorol o 86% neu fwy. Yn ymarferol, golyga hyn mai dim ond bwyleri cyddwyso ym mandiau A a B ar Gronfa Ddata Ynni Cynaliadwy y DU y gellir eu gosod. Bydd y gofyniad hwn yn dod i rym ar gyfer bwyleri olew hefyd o fis Ebrill 2007.

Dan Adran 81 yn Neddf Ynni 2004 rhaid i'r Llywodraeth adrodd yn flynyddol ar y cynnydd tuag at gyflawni ei nodau effeithlonrwydd ynni. Rhoddir sylw manwl i hyn ym Mhennod 6.

Edrych ymlaen

- 2.14** Mae'r rhagamcaniadau presennol yn dangos y disgwylir, erbyn 2010, i allyriadau'r DU o'r fasedg o chwech o'r nwyon tŷ gwydr fod tua 20 y cant islaw lefelau'r flwyddyn sylfaen, a disgwylir i allyriadau carbon deuocsid fod tuag 14 y cant islaw lefelau 1990. Fel y dywedodd y maniffesto, bydd yr Arolwg o'r Rhaglen Newid Hinsawdd yn dangos i ni sut i fynd yn ôl ar y trywydd er mwyn cyrraedd ein nod o dorri allyriadau carbon deuocsid 20% erbyn 2010. Bwriedir cyhoeddi'r rhaglen ddiwygiedig erbyn diwedd y flwyddyn. Rhai o'r cyfraniadau allweddol at y rhaglen ddiwygiedig fydd cynlluniau cychwynnol Cam 2 Cynllun Masnachu Allyriadau'r UE; canlyniadau'r Arolwg Arloesi ym maes Effeithlonrwydd Ynni; a chanlyniadau'r astudiaeth dichonoldeb i Rwymedigaeth Tanwydd Cludiant Adnewyddadwy (RTFO).
- 2.15** Yn dilyn yr ymgynghoriad rhagarweiniol ddechrau'r flwyddyn, bydd y Llywodraeth yn disgrifio ei safbwynt arfaethedig ar yr Arolwg Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy mewn dogfen ymgynghori statudol a gyhoeddir yn ddiweddarach yn 2005.
- 2.16** Mae gwaith yn parhau i ddatblygu cadwyn gyflenwi ddomestig gref i gefnogi prosiectau ym maes ynni adnewyddadwy. Ym mis Gorffennaf 2005 bwriedir cyhoeddi astudiaeth yn dadansoddi'r gadwyn gyflenwi ar gyfer fferm wynt alldraeth Scroby Sands, a fydd yn dangos 48% o gynnwys o'r DU o fewn y prosiect. Mae'r adroddiad yn gosod meincnod ar gyfer prosiectau yn y dyfodol ac yn cynnig y potensial o roi gwell dealltwriaeth o lwyddiant cymharol busnesau'r DU ar hyn o bryd o ran sicrhau gwaith o fewn y diwydiant gwynt alltraeth.

- 2.17** Ar hyn o bryd, nid yw allyriadau rhyngwladol awyrennau yn cyfrif yn y rhestrau cenedlaethol o allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan nad oes yna gytundeb rhyngwladol hyd yma ar ffyrdd o ddyrannu allyriadau o'r fath. Serch hynny, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod datblygiad tymor hir cludiant awyr yn gynaliadwy a'i fod yn cwrdd â'i gostau allanol. Yn y Papur Gwyn ar Ddyfodol Cludiant Awyr disgrifir ein hamcan o gynnwys awyrennau yn rhan o'r UE ETS o 2008 neu mor fuan â phosib wedi hynny. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd eisoes yn edrych ar y ffordd orau o ymdrin ag effeithiau awyrennau ar newid hinsawdd, gan gynnwys masnachu allyriadau. Ym mis Gorffennaf, disgwylir Cyfathrebiad gan y Comisiwn yn awgrymu ffordd ymlaen. Disgwylwn drafod y dewisiadau a chytuno ar ffordd ymlaen tra byddwn yn Llywyddu'r UE.
- 2.18** Fel y nodwyd yn y Papur Gwyn ar Ynni nid ydym yn ymwrthod â'r posibilrwydd y bydd yn angenrheidiol codi gorsaf niwclear newydd ar ryw bwynt yn y dyfodol os ydym am gyrraedd ein targedau carbon. Cyn codi unrhyw orsafoedd pŵer niwclear newydd byddai'n rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn, a phapur gwyn yn disgrifio ein cynigion. Mae'r Prif Weinidog wedi datgan y bydd angen gwneud penderfyniad ynghylch pŵer niwclear yn ystod y Senedd hon.

3. Dibynadwyedd Ynni

Ymrwymiadau

Ein nod yw y bydd pobl a busnesau yn gallu dibynnu ar gyflenwadau ynni sicr – nwy, tanwydd a thrydan – am brisiau fforddiadwy, yn cael eu cyflwyno trwy farchnadoedd cystadleuol gan leihau'r effaith ar yr amgylchedd i'r eithaf.


Rydym wedi ymrwymo i sicrhau'r budd economaidd mwyaf o gronfeydd olew a nwy y DU a chynnal y lefelau cynhyrchu yn 3 miliwn casgen o gyfwerth olew y dydd tan 2010.

Cynnydd hyd yma

- 3.1** Bydd olew a nwy Môr y Gogledd yn parhau'n allweddol o ran helpu i fodloni anghenion ynni'r DU ymhell y tu hwnt i'r degawd nesaf. Hyd yma, cynhyrchwyd tua 34 biliwn casgen o gyfwerth olew (boe), gyda'r potensial i gasglu hyd at 22 biliwn boe arall. Mae'r Llywodraeth yn gweithio'n galed gyda'r diwydiant trwy gyfrwng nifer o fentrau i wireddu'r potensial hwn a sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o ran adfer cronfeydd olew a nwy'r DU yn economaidd.
- 3.2** Mae'r Llywodraeth ac Ofgem yn monitro datblygiadau yn y farchnad drydan a nwy yn barhaus trwy'r **Cyd-grŵp Sicrwydd Cyflenwadau Ynni (JESS)**. Mae'r Grŵp hefyd yn chwilio am ffyrdd o helpu'r farchnad weithio'n effeithiol i sicrhau cyflenwadau ynni ac yn darparu gwybodaeth i gyfranwyr yn y farchnad i'w helpu i gynllunio penderfyniadau buddsoddi. Cyhoeddwyd yr Adroddiad JESS diweddaraf ym mis Tachwedd 2004³. Fel enghraifft o'r wybodaeth y mae JESS yn ei chyhoeddi, mae'r siart canlynol yn dangos sut y mae'n debygol y bydd y galw am drydan yn cael ei ateb gan wahanol fathau o gynhyrchu a'r anghenion posib ar gyfer buddsoddi newydd.

3 <http://www.dti.gov.uk/energy/jess/jessreport5.pdf>

Cynhyrchu Trydan yn ôl Math o Danwydd



Ffynonellau: Crynhoad o ystadegau ynni'r DU a rhagamcaniadau'r DTI.

3.3 Yn ychwanegol at JESS, mae adran 172 Deddf Ynni 2004 bellach yn darparu ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol yn adrodd i'r Senedd ar sicrwydd cyflenwadau yn flynyddol. Cyhoeddir yr adroddiad newydd, **Adroddiad Sicrwydd Cyflenwadau Adran 172**, ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Mae'r DTI hefyd wedi ymrwymo i adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd dan ei Gyfarwydddeb Sicrwydd Cyflenwadau Nwy a Thrydan. Bwriedir llunio'r holl adroddiadau hyn yn gylch adrodd blynyddol ar sicrwydd cyflenwadau. Mae'n fwriad cynnal digwyddiad i fudd-ddeiliaid JESS yn nhymor yr Hydref 2005 i ystyried sut y gallai adroddiadau JESS yn y dyfodol atodi adroddiad adran 172 yn y ffordd fwyaf defnyddiol.

Mae adroddiad Adran 172 yn rhoi mwy o sylw manwl i'r rhagolygon tymor byr a thymor canolig o ran cydbwysedd cyflenwad a galw y DU. Mae'n defnyddio rhagolwg cychwynnol y Grid Cenedlaethol Transco (NGT) ar gyfer y gaeaf nesaf, a gyhoeddwyd gan Ofgem ar gyfer ymgynghoriad ar 31 Mai⁴. Awgrym hwn yw, er ei bod hi'n debygol y bydd y farchnad nwy yn fwy tyn nag mewn gaeafau diweddar, mai dim ond pe ceid tywydd eithafol y byddai prinder dybryd yn debygol ar gyfer defnyddwyr heb fod yn rhai domestig. Mae'n dangos yn glir na fydd problem ar gyfer defnyddwyr nwy domestig. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bydd NGT yn cyhoeddi Adroddiad Terfynol Rhagolwg y Gaeaf ar gyfer 2005/06 yr hydref hwn yng ngoleuni ymatebion a dderbynnir i'r adroddiad hwn.

3.4 Wrth i **ddimensiwn rhyngwladol sicrwydd cyflenwadau** ddod yn fwy pwysig, mae'r FCO wedi cynyddu ei waith yn y maes hwn, gan weithio gydag adrannau eraill. Mae'r Strategaeth Ynni Ryngwladol yn nodi ein hamcanion rhyngwladol. Heblaw'r gweithgarwch yn ystod Llywyddiaethau'r G8 a'r UE, dyma flaenoriaethau eraill:

⁴ http://www.ofgem.gov.uk/temp/ofgem/cache/cmsattach/11584_14405b.pdf

- gweithio, yn amlochrog (trwy sefydliadau megis yr UE a'r Asiantaeth Ynni Ryngwladol) ac yn ddwyochrog i bwysu am ddiwygio'r farchnad ynni a gwella'r drefn o lywodraethu'r sector ynni mewn gwledydd sy'n cynhyrchu llawer;
- gweithio, gydag eraill, i gael marchnadoedd olew a nwy rhyngwladol cystadleuol a sefydlog;
- annog sefydlogrwydd gwleidyddol ac economaidd mewn gwledydd cynhyrchu allweddol;
- gwella faint o ddefnydd a wneir o ynni adnewyddadwy a defnyddio ynni'n fwy effeithlon ledled y byd; a
- gwella'r gweithredu i wella gwytnwch y rhwydwaith, gan gofio bygythiad brawychiaeth.

3.5 Dros y flwyddyn a aeth heibio bu prisiau olew yn gymharol uchel ac yn gymharol newidiol. Mae twf cryf yn y galw am olew yn fyd-eang wedi tynhau'r gallu ar hyd y gadwyn gyflenwi. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio gyda gwledydd sy'n cynhyrchu a defnyddio olew, a chyrrff rhyngwladol perthnasol megis yr Asiantaeth Ynni Ryngwladol, i hybu marchnadoedd olew mwy agored ac i wella'r hinsawdd buddsoddi mewn gwledydd sy'n cynhyrchu olew. Er enghraifft, erbyn hyn mae gan Ysgrifenyddiaeth y Fforwm Ynni Rhyngwladol yn Riyadh rôl gydlynol yn y Gydfenter Data Olew (JODI), sy'n anelu at geisio gwella'r data am y farchnad olew, a dylai cronfa ddata JODI gael ei lansio yn nes ymlaen yn 2005.

Edrych ymlaen

- 3.6** Rhwng 1997 a 2003, roedd y DU yn allforiwr net o nwy yn flynyddol, yn bennaf trwy'r cyswllt Bacton-Zeebrugge. Gan i gynhyrchiant leihau ar Sgafell Gyfandirol y DU, yn 2004 roedd y DU unwaith eto yn fewnforiwr net o nwy a disgwylir y bydd yna anghenion mewnforio mawr erbyn diwedd y degawd a thu hwnt, gyda'r anghenion hynny'n tyfu gydol y cyfnod. Er nad yw dibynnu ar fewnforio nwy yn nodwedd newydd yng nghymysgedd cyflenwadau ynni y DU, yn y gorffennol ni fuom yn dibynnu ar fewnforio i'r fath raddau â'r hyn a ragfynegir nawr. Mewnforion oedd yn ateb tua 25 y cant o'r galw yn y DU yn y 1980au (mae'n bosib y bydd hyn yn codi i 40 y cant erbyn 2010 ac 80 y cant neu fwy erbyn 2020).
- 3.7** Byddwn yn parhau i gefnogi cyflwyno seilwaith newydd i'r farchnad ar gyfer mewnforio nwy ac olew. Er enghraifft, ar 5 Ebrill 2005 llofnodwyd trefniant rhwng y DU a Norwy a allai sicrhau hyd at 20 y cant o anghenion nwy y DU

yn y dyfodol. Mae'r Cytundeb Fframwaith newydd yn ymdrin ag amrywiaeth eang o ddatblygiadau olew a nwy posib ar draws ffiniau. Yn ychwanegol at brosiect pibell nwy Langeled South, bydd y Cytundeb newydd yn rhoi sylw i ddarpar ddatblygiad meysydd olew a nwy sy'n eistedd ar y ffin forol rhwng y ddwy Wladwriaeth a defnyddio seilwaith alldraeth ar un sgafell gyfandirol i chwilio am gronfa olew a nwy y gellid ei datblygu ar y sgafell gyfagos.

3.8 Cafwyd hefyd nifer o benderfyniadau buddsoddi allweddol a fydd yn gwella'r gallu mynediad yn y tymor hir. Er enghraifft, ym mis Medi cynhaliodd NGT arwerthiannau i werthu gallu mynediad tymor hir mewn mannau lle mae eisoes fynediad at ei system a phwynt mynediad arfaethedig newydd yn Aberdaugleddau. Yn arwerthiant Aberdaugleddau gallai cludwyr brynu hawliau penodol ar gyfer gallu dosbarthu nwy i'r System Drawsyrru Genedlaethol (NTS) o gyfleusterau mewnfario LNG arfaethedig sy'n cael eu datblygu yn yr ardal. O ganlyniadau i'r cynigion a ddaeth i law, mae Transco wedi cyflwyno cynnig i OFGEM am gael rhyddhau gallu cynyddrannol o 350 GWh/d i ddod i rym o fis Hydref 2007. Er mwyn cyflwyno gallu NTS gwirioneddol ar gyfer y pwynt mynediad newydd hwn, bydd angen adeiladu estyniad o 128 km i'r NTS. Yn ddiweddar, hefyd, cyhoeddodd yr NGT y bydd terfynell LNG Grain yn cael ei hehangu.

3.9 Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i roi cymaint o rybudd ymlaen llaw a chymaint o eglurder â phosib i'r farchand ar y ffordd y bydd mesurau newydd – yn enwedig rheoli'r amgylchedd – yn cael eu gweithredu er mwyn cyfrannu at wneud penderfyniadau a chynyddu'r posibilïadau i'r farchnad ymateb yn effeithlon. Cyn bo hir cyflwynir cyfres o fentrau a Chyfarwyddebau Ewropeaidd i geisio lleihau llygredd a gallai hynny fod â goblygiadau o ran sicrwydd y cyflenwadau trydan. Y canlyniad y dymunir ei gael trwy'r rheoliadau amgylcheddol yw symud y cymysgedd cynhyrchu cyffredinol tuag at dechnolegau glanach. Fe fydd Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE, y Gyfarwyddeb Gweithiau Hylosgi Mawr, y Gyfarwyddeb Integredig ar Reoli ac Atal Llygredd, a'r Gyfarwyddeb ar Derfynau Allyriadau Cenedlaethol i gyd yn gweithredu yn yr un cyfeiriad, yn cynnig cymhellion a therfynau ar allyriadau er mwyn annog symudiad at ffyrdd glanach o gynhyrchu.

4. Marchnadoedd ynni cystadleuol

Ymrwymiadau


Ein nod yw hyrwyddo marchnadoedd cystadleuol yn y DU a thu hwnt, gan helpu i godi cyfradd twf economaidd cynaliadwy a gwella cynhyrchiant.

Y cynnydd hyd yma

- 4.1** Eglurodd y Papur Gwyn ar Ynni fod y Llywodraeth yn credu bod **rheolaeth economaidd** annibynnol ar ein marchnadoedd ynni yn arwain at fanteision arwyddocaol. Nid yw'r safbwynt hwn wedi newid. Mae deuliaeth y dyletswyddau statudol a osodir ar yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Rheoleiddiwr mewn deddfwriaeth nwy a thrydan yn sicrhau y cynhelir y gwahanol gyfrifoldebau mewn modd a fydd yn rhoi sicrwydd rheoleiddiol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cael digon o hyder yn y marchnadoedd ar gyfer buddsoddi yn y tymor hir. Y Llywodraeth sy'n gosod y fframwaith rheoleiddiol o hyd ond mae'n gwneud hynny trwy ymgynghori'n agos ag Ofgem. Bydd gweinidogion ac uwch swyddogion yn cwrdd ag Ofgem yn fisol. Ar lefel datblygu polisi, mae deialog parhaus rhwng Ofgem a'r DTI.
- 4.2** Mae marchnadoedd ynni yn y DU yn parhau gyda'r mwyaf cystadleuol yn yr UE o ran prisiau trydan a nwy domestig a diwydiannol. Daw'r siart canlynol o adroddiad a baratowyd ar gyfer y DTI gan Oxera ac a gyhoeddwyd ym mis Medi 2004⁵. Roedd yn cymharu pa mor gystadleuol oedd gwahanol farchnadoedd ynni mewn amrywiaeth o wledydd, wedi'u dethol yn ôl a oeddynt wedi rhyddfrydoli'n ddigonol. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod y DU ar y trywydd i aros o fewn y tair marchnad gystadleuol ar y brig ym mhob blwyddyn hyd at 2008. Mae cystal perfformiad â hyn yn seiliedig ar y ffaith fod y marchnadoedd nwy a thrydan yn y DU wedi cael eu rhyddfrydoli'n gynnar. Bydd sgoriau gwledydd eraill yn gwella wrth iddynt weithredu cyfarwydddebau'r UE ar ryddfrydoli'r farchnad.

5 Ffynhonnell: "Energy Market Competition in Europe and G7" gan Oxera ar gyfer y DTI (Medi 2004).

Pa mor gystadleuol yw marchnadoedd ynni'r DU o gymharu ag aelodau dethol o'r UE



4.3 Rydym wedi rhoi mesurau ar waith i weithredu **pecyn rhyddfrydoli ynni'r UE 2003** ym Mhrydain Fawr, yn neilltuol trwy gyflwyno trefn drwyddedu ar gyfer rhyng-gysylltyddion a thrwy fynnu bod cyflenwyr trydan yn rhoi gwybod i'w cwsmeriaid pa danwyddau a ddefnyddir wrth gynhyrchu pŵer. Cefnogwn y Comisiwn yn ei waith i sicrhau y gweithredir y pecyn yn briodol ym mhob Aelod-wladwriaeth ac edrychwn ymlaen at yr adroddiad y mae DG TREN i'w gyhoeddi ar y mater yn nes ymlaen eleni. Rydym hefyd yn cefnogi'r arolwg o gystadleuaeth yn y sector sy'n cael ei gynnal gan DG Competition. Bydd y ddwy fenter yn cyfrannu gwybodaeth at y gweithredu pellach a allai fod yn angenrheidiol o du'r UE er mwyn sicrhau y bydd marchnad ynni gystadleuol yn datblygu'n briodol.

4.4 Ac eithrio yn 2002 a 2003 roedd **prisiau** trydan yn 2004 ar gyfer cwsmeriaid domestig a diwydiannol fel ei gilydd ar eu hisaf mewn termau real er 1970. Yn 2004 (mae'r holl ffigurau yn cynnwys treth):

- Prisiau nwy diwydiannol y DU oedd yr ail isaf yn yr UE a'r isaf yn yr G7;
- Roedd y prisiau nwy domestig y trydydd isaf yn yr UE a'r isaf yn yr G7;
- Roedd prisiau trydan diwydiannol y chweched isaf yn yr UE a'r ail isaf yn yr G7; ac
- Roedd prisiau trydan domestig y pedwerydd isaf yn yr UE a'r isaf yn yr G7.

4.5 Mae prisiau ynni domestig wedi bod yn codi yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith fod prisiau cyfanwerthu nwy a thrydan wedi bod yn codi, oherwydd prisiau glo uwch yn rhyngwladol a hefyd oherwydd effeithiau mesurau polisi gyda'r nod o fynd i'r afael â newid hinsawdd – yn bennaf Masnachu Allyriadau yr UE. Er gwaethaf y codiadau ac oherwydd effeithiau rhyngwladol y cynnydd ym mhrisiau sylfaenol tanwyddau ffosil, parhaodd y DU ymysg y mwyaf cystadleuol yn yr UE a'r G7 yn nhermau prisiau ynni diwydiannol a domestig.

- 4.6** Mae nawdd ar gyfer **ymchwil a datblygu** yn agwedd bwysig ar gynnal marchnadoedd cystadleuol hefyd. Yn dilyn dyrannu'r Gyllideb Wyddoniaeth, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2005, disgwylir i wariant y Cyngor Ymchwil ar ymchwil a datblygu ym maes ynni godi o £40 miliwn y flwyddyn i £70 miliwn y flwyddyn erbyn 2007-8. Fe fydd hyn yn cefnogi ymchwil a sgiliau ar draws yr amrediad eang o dechnolegau ynni gan sicrhau y byddwn yn cynnal a gwella'r sgiliau angenrheidiol er mwyn cadw'r gallu cynhyrchu sydd gennym ar hyn o bryd, yn helpu i ddatblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy newydd ac effeithlonrwydd ynni, yn ogystal â chefnogi datblygiad technolegau dosbarthu a mynd i'r afael â gyrwyr nad ydynt yn rhai technegol (rheoleiddiol, economaidd-gymdeithasol, amgylcheddol). Ym mis Hydref 2004 dechreuodd gwaith yng Nghanolfan Ymchwil Ynni'r DU (gyda £13m o arian gan y Cyngorau Ymchwil dros 5 mlynedd). Mae ganddo bencadlys yng Ngholeg Imperial, Llundain, safle ar gyfer ymchwil ddwys a rhwydweithio yn Rhydychen ac mae 12 sefydliad ymchwil gwahanol yn rhan o'r rhaglen ymchwil.
- 4.7** Mae'r Llywodraeth yn ariannu sbectrwm o weithgarwch ymchwil a datblygu i dechnolegau ynni sy'n ymddangos, gan ganolbwyntio'n bennaf ar dechnolegau adnewyddadwy neu leihau carbon (gweler Pennod 6 sy'n rhoi sylw manylach i'r rhain). Corff sy'n cydweithio drwy Gymru gyfan yw Canolfan Ymchwil Ynni Cymru; fe'i ffurfiwyd gan grwpiau ymchwil o Brifysgolion Caerdydd, Abertawe, Morgannwg a Bangor, a'r Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd. Lleolir y Ganolfan yng Nghanolfan y WDA ar gyfer Gweithgynhyrchu a Deunyddiau ym Mhort Talbot (ECM2). Nod y ganolfan rithwir yw ychwanegu gwerth at waith ymchwil presennol, meithrin datblygiad prosiectau ymchwil ar y cyd sy'n integreiddio ar hyd y gadwyn ynni. Bydd y ganolfan yn hwyluso gwell undod rhwng amcanion ymchwil ym maes ynni a pholisi ynni Cymru a bydd yn arwain at broses gyflymach o ymelwa ar waith ymchwil a'i droi'n fasnachol. Bydd y Ganolfan yn cefnogi cyrff ymchwil Cymreig wrth iddynt rwydweithio â mentrau ymchwil yn y DU, ledled Ewrop ac yn Rhyngwladol.

Edrych ymlaen

- 4.8** Y DU fydd Llywydd y Cyngor Ewropeaidd rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2005. Y blaenoriaethau allweddol fydd bwrw ymlaen i sicrhau marchnadoedd ynni agored, cystadleuol yn Ewrop; hyrwyddo sicrwydd cyflenwadau yn y tymor hir a mynd i'r afael â newid hinsawdd. Ceir rhagor o fanylion yn www.dti.gov.uk/eupresidency2005/
- 4.9** Rydym yn awyddus i adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn y Cyngor Ewropeaidd ym mis Mawrth 2005. Dangosodd ei gasgliadau fod yna ymrwymiad o fewn yr UE i fynd i'r afael â newid hinsawdd ar lefel ryngwladol, a gwnaeth gryn gynydd o ran llunio fframwaith ar gyfer gweithredu yn y dyfodol ar raddfa fyd-eang. Llwyddodd Penaethiaid Llywodraethau'r UE i symud y ddadl am newid

hinsawdd yn ei blaen yn sylweddol trwy argymhell y byddai'n rhaid i'r byd datblygedig ystyried gostyngiadau o oddeutu 15-30% erbyn 2020 (o gymharu â lefelau 1990) er mwyn sicrhau na fydd tymereddau byd-eang cyfartalog yn codi mwy na dwy radd canradd.

- 4.10** Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mewn termau real, mae prisiau trydan a nwy fel ei gilydd wedi bod ar eu hisaf neu ar brisiau sy'n hanesyddol isel. Yn 2004, fodd bynnag, dechreuodd prisiau godi wrth i bris cyfanwerthu nwy godi oherwydd y cynnydd byd-eang ym mhris olew a'r ffaith fod marchnad nwy y DU mor dynn. Fe fydd y tyndra hwn yn llacio'n raddol erbyn 2007/8, ac er y gallai prisiau olew a thrwy hynny brisiau absoliwt nwy aros yn uchel, fe ddylai'r gwahaniaeth rhwng ein prisiau a phrisiau Cyfandirol leihau. Fe fydd hyn yn effeithio ar brisiau trydan, ond fe fydd y rheini hefyd yn ddibynnol ar amryfal ffactorau eraill, megis costau CO₂ a'r cydbwysedd cyflenwad/galw yn y farchnad bŵer.
- 4.11** Yng Nghyllideb 2005, cyhoeddodd y Llywodraeth ei chynlluniau i sefydlu partneriaeth newydd, sef Partneriaeth Ymchwil Ynni y DU, i ddod â ffocws mwy strategol i'r ymchwil a datblygu sy'n cael ei gynnal yn gyffredinol, yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Fe fydd yn dwyn ynghyd noddwyr cyhoeddus a phreifat ym maes ymchwil ynni er mwyn gwella'r ddeialog, nodi blaenoriaethau cytûn a gwella'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Bellach, mae trafodaethau ar agweddau ymarferol gweithredu'r Partneriaeth newydd ar y gweill gyda budd-ddeiliaid.


5. Ymdrin â Chyni Tanwydd

Ymrwymïadau

Nod y Llywodraeth, a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, yw ceisio dod â chyni tanwydd i ben. Yn neilltuol, fe fyddwn yn ceisio cael gwared ar gyni tanwydd mewn cartrefi bregus yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, erbyn 2010. Mae Cymru a'r Alban wedi ymrwymo i roi terfyn ar gyni tanwydd, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, erbyn 2018, ac mae gan yr Alban nod dros dro o leihau cyni tanwydd 30 y cant rhwng 2002 a 2006. Y nod yn y pen draw, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, yw na ddylai unrhyw gartref yn y DU fod yn byw mewn cyni tanwydd erbyn 2016-18.

Y cynnydd hyd yma

Amcangyfrif o Nifer y Cartrefi mewn Cyni Tanwydd yn y DU



Ffynhonnell: Strategaeth Cyni Tanwydd y DU, 3ydd Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2005

- 5.1 Cyhoeddwyd 'Fuel Poverty in England: The Government's Plan for Action' ar 30 Tachwedd 2004. Roedd yn amlinellu'r amrywiaeth eang o bolisïau a rhaglenni a fydd yn cyfrannu at ymdrin â chyni tanwydd. Rydym wedi adrodd ar y cynnydd hyd yma yn y Trydydd Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar Strategaeth Cyni Tanwydd y DU. Rydym hefyd wedi cynnal ymgynghoriad ac

arolwg cymheiriaid i'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo nifer y cartrefi mewn cyni tanwydd, a gyhoeddir ar yr un pryd â'r Adroddiad Blynyddol.

- 5.2** Mae nifer y cartrefi mewn cyni tanwydd yn y DU yn ei chyfanrwydd wedi gostwng dros bedair miliwn a hanner er 1996, i lefel o tua dwy filiwn yn 2003. Yn Lloegr, disgynnodd cyni tanwydd o tua 5.1 miliwn yn 1996 i 1.2 miliwn yn 2003. Yn yr Alban cyhoeddodd Gweithrediaeth yr Alban "*The Scottish Fuel Poverty Statement August 2002*"⁶. Mae'r ddogfen yn nodi amcan cyffredinol yr Alban ar gyfer cyni tanwydd, sef "sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, nad oes pobl yn byw mewn cyni tanwydd yn yr Alban erbyn Tachwedd 2016". Mae Gweithrediaeth yr Alban hefyd wedi ymrwymo i weld gostyngiad o 30 y cant mewn cyni tanwydd erbyn 2006 ar sail Arolwg Cyflwr Tai yr Alban 2002. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael o Arolwg Cyflwr Tai yr Alban 2002 yn dangos bod cyni tanwydd wedi haneru a mwy rhwng 1996 a 2002 – o 738,000 (35%) cartref yn 1996 i 286,000 (13%) yn 2002.
- 5.3** Yng Nghymru, targed Llywodraeth Cynulliad Cymru yw na ddylai unrhyw gartref yng Nghymru, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, fod yn byw mewn cyni tanwydd erbyn 2018. Prif gyfrwng Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer codi pobl o gyni tanwydd yw'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref (HEES). Cyllideb HEES ar gyfer 2004/05 yw £14.1 miliwn. Mae'r Cynllun wedi cyrraedd targed Ymrwymiad Cyni Tanwydd Cymru, sef helpu 38,000 cartref yng Nghymru erbyn mis Mawrth 2004. Mae'r Ymrwymiad hefyd yn nodi bwriad Llywodraeth y Cynulliad i roi cymorth i 95,000 cartref erbyn mis Mawrth 2007. Fodd bynnag, mae hwn bellach yn ymddangos yn darged heriol o ystyried costau cynyddol rhoi cymorth i gartrefi mewn cyni tanwydd. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu adrodd ar y cynnydd yn erbyn yr Ymrwymiad unwaith y ceir amcangyfrifon mwy cywir o niferoedd y cartrefi mewn cyni tanwydd trwy arolwg Byw yng Nghymru.
- 5.4** Mae gan y Llywodraeth darged, sef sicrhau y bydd yr holl gartrefi yn y sector cymdeithasol yn Lloegr yn bodloni'r Safon Cartrefi Digonol erbyn 2010. Yn ôl ffigurau o Arolwg Cyflwr Tai Lloegr ar gyfer 2003, mae nifer y tai yn y sector cymdeithasol nad ydynt yn rhai digonol wedi gostwng 13 y cant er 2001. Bu gostyngiad o 20% yn nifer y tai yn y sector cymdeithasol sy'n methu'r maen prawf cludwch thermol, o fwy nag 1.3 miliwn o gartrefi yn 2001 i lai nag 1.1 miliwn yn 2003. Er 2001, gwnaed gwaith ar 470,000 o gartrefi i wella eu heffeithlonrwydd ynni dan y rhaglen cartrefi digonol neu fel rhan o waith ehangach yr awdurdodau lleol i ddiweddarau'r stoc.

6 www.scotland.gov.uk/library5/environment/sfps-00.asp

Edrych ymlaen

- 5.5** Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran trin cartrefi trwy'r cynllun Warm Front Scheme yn Lloegr, gyda rhagor na miliwn o gartrefi bregus wedi derbyn cymorth hyd yma. Rydym wedi cyhoeddi gwelliannau i'r cynllun hwn yn Lloegr, a daethant i rym gyda cham newydd y Cynllun ynghynt eleni.
- 5.6** Yn yr Alban, sefydlwyd y Rhaglen Gwres Canolog i sicrhau bod yr holl dai yn y sector cymdeithasol a chartrefi bregus yn y sector preifat yn derbyn gwres canolog am ddim erbyn 2006. Yn ogystal, erbyn 2006 bydd yr holl bensynwyr sy'n y sector preifat heb wres canolog wedi elwa o'r Rhaglen hefyd.
- 5.7** Cynllun Warm Homes sydd i'w gael yng Ngogledd Iwerddon ac ar 23 Tachwedd 2004 lanswyd 'Ending Fuel Poverty: A Strategy for Northern Ireland'. Ei nod, yn amodol ar ddigon o adnoddau, yw cael gwared ar gyni tanwydd mewn cartrefi bregus erbyn 2010, ac mewn cartrefi nad ydynt yn rhai bregus erbyn 2016. Yn ogystal, ni ddylai unrhyw gartref yn y sector rhentu cymdeithasol ddiodeff cyni tanwydd erbyn 2016. Mae'r strategaeth yn cydnabod mai'r ffordd orau o ymdrin â chyni tanwydd yw trwy bartneriaeth, a fydd yn golygu gweithio gyda chyrrff sy'n gallu dylanwadu ar incwm, costau tanwydd, darpariaeth ac effeithlonrwydd ynni a chyda chyrrff yn y sector gwirfoddol a chymunedol.
- 5.8** Oherwydd codiadau diweddar mewn prisiau ynni, fe fydd hi'n anos cyrraedd ein targedau cyni tanwydd. Mae'r DTI a Defra yn gweithio gyda chyflenwyr a chymdeithasau gwirfoddol i edrych ar y ffyrdd y gall defnyddwyr bregus ymelwa orau ar y cymorth sydd ar gael iddynt.
- 5.9** Canlyniad allweddol ein trafodaethau yw fod y diwydiant cyflenwi wedi cynnig y dylid sefydlu Llinell Gymorth ar gyfer cynorthwyo cwsmeriaid bregus i gael gafael ar holl ystod y gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Bellach mae'r diwydiant yn gweithio ar y cynnig hwn, gyda'r bwriad y bydd y Llinell Gymorth ar gael erbyn mis Hydref, yn barod i dderbyn galwadau gan gwsmeriaid neu eu cynrychiolwyr.
- 5.10** Mae tua 9,000 o gymunedau heb fynediad at nwy prif gyflenwad. Yn ystod 2004/5, mae'r Uned Ddylunio ac Arddangos (DDU), sef tîm o bobl ar secondiad o'r sector preifat a leolir yn y DTI, wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau i geisio helpu cymunedau difreintiedig mewn ardaloedd lle nad oes nwy. Mae'r prosiectau hyn yn defnyddio model a ddatblygwyd ac a fireiniwyd gan y DDU. Mae'n manteisio ar nifer o ffynonellau cyllido a gellir ei ailadrodd ar sail fwy. Mae'r DDU yn parhau i geisio ehangu ystod y ffynonellau cyllido sydd ar gael ar gyfer y gwaith hwn.

- 5.11** Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r mewnbwn gan ei Grwpiau Ymgynghorol ar Gyni Tanwydd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cyhoeddodd y Grŵp Ymgynghorol ar Gyni Tanwydd yn Lloegr ei drydydd adroddiad blynyddol yn gynharach eleni, gan amlinellu'r angen i roi ystyriaeth i'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn ymdrin â chyni tanwydd, yr angen i ystyried y cartrefi hynny sy'n 'anodd eu gwresogi' a phwysleisiodd ymhellach pa mor bwysig yw hi i holl adrannau'r Llywodraeth gydweithio ar y mater hwn.
- 5.12** Fel y nodwyd eisoes ym Mhennod 4, dechreuodd prisiau ynni godi yn 2003, er bod prisiau mewn termau real yn parhau'n hanesyddol isel. Oherwydd effaith bosib y codiadau hyn mewn prisiau ar unrhyw gynnydd tuag at y targedau a osodwyd yn Strategaeth Cyni Tanwydd y DU, fe fydd yn rhaid canolbwyntio ymdrechion ar ddod o hyd i'r ffyrdd mwyaf cynaliadwy neu "sefydlog i'r dyfodol" o ymdrin â chyni tanwydd. Erys angen parhaus i weithredu er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni ac incwm ar gyfer y rhai sydd fwyaf tueddol o ddiodef cyni tanwydd a'i effeithiau. Bydd y newidiadau i gynllun Warm Front yn Lloegr yn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

6. Adrodd ychwanegol yn dilyn Deddf Ynni 2004

Ffynonellau ynni a thechnolegau

- 6.1** Dan Adran 81 Deddf Ynni 2004 rhaid i'r Llywodraeth gynnwys gwybodaeth yn yr adroddiad blynyddol hwn am amrywiaeth o ffynonellau a thechnolegau ym maes ynni. Yn benodol "gwaith sy'n cael ei gynnal i ddatblygu neu ddefnyddio ffynonellau ynni neu dechnolegau a restrir: technoleg glo glân; methan glofeydd; biomas; biodanwyddau; celloedd tanwydd; dyfeisiau ffotofoltaidd; cynhyrchu trwy donnau a llanw; hydrogeniad; microgynhyrchu; ffynonellau geothermol, ac unrhyw ffynhonnell ynni/technoleg arall a allai leihau allyriadau carbon." Manylir ar bob un yn y tabl isod:

Math o ffynhonnell ynni/technoleg	Gweithredu arfaethedig neu ar waith er mwyn datblygu neu ddefnyddio
Technolegau lleihau carbon (gan gynnwys glo)	<p>Cyhoeddwyd strategaeth Technolegau Lleihau Carbon ym mis Mehefin 2005 ac fe'i cewch yn http://www.dti.gov.uk/energy/coal/cfft/catstrategy.shtml</p> <p>Mae'r Llywodraeth yn gwario ychydig dros £500 miliwn rhwng 2002 a 2008 i helpu technolegau adnewyddadwy ac isel eu carbon sy'n ymddangos, ar ffurf gwariant ymchwil a datblygu a chyllido grantiau cyfalaf. Rhoddir cefnogaeth hefyd i ymchwil a datblygu dan arweiniad diwydiant trwy'r Rhaglen Technoleg, sy'n darparu o leiaf £20 miliwn y flwyddyn a thrwy raglen Gweledigaeth Garbon yr EPSRC/Ymddiriedolaeth Garbon sy'n darparu tua £9 miliwn i gyd dros 5 mlynedd. Dan fenter SuperGen bydd yr EPSRC yn cyllido ymchwil i Ymestyn Hyd Oes Gorsafoedd Pŵer Confensiynol.</p>
Methan Glofeydd	<p>Mae'r Awdurdod Glo wedi datblygu cynllun ar gyfer cefnogi tanio fflerau methan lle bo'n berygl amgylcheddol. Ar hyn o bryd mae'n chwilio am nawdd i gefnogi'r cynllun hwn.</p>

Math o ffynhonnell ynni/technoleg	Gweithredu arfaethedig neu ar waith er mwyn datblygu neu ddefnyddio
Biomas	Cyn hir bydd y Tasglu Biomass dan arweiniad Syr Ben Gill yn adrodd gan roi ei argymhellion i'r Llywodraeth. Cyhoeddodd y Llywodraeth grantiau o dros £60 miliwn ar gyfer cynydu ynni a biomass. Dan y fenter SuperGen mae cynghorau ymchwil yn ariannu £2,897K o waith dros y 4 blynedd nesaf.
Biodanwyddau	Sefydlodd y Llywodraeth gymhellion trethi tanwydd i annog gwerthiant biodanwyddau yn y DU. Mae'r trethi ar biodisel a bioethanol ill dau 20 ceiniog y litr yn llai nag ar ddisel ffosol a phetrol. O ganlyniad i'r mentrau hyn, roedd gwerthiant biodanwyddau rhwng 1 a 2 miliwn litr y mis yn ystod 2004, ond cynyddodd hyn yn gyflym yn fuan yn 2005, gan gyrraedd dros 10 miliwn litr ym mis Mai. Ym mis Rhagfyr 2004, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai'n cynnal astudiaeth dichonoldeb i bosibilrwydd Rhwymedigaeth Tanwydd Trafndiaeth Adnewyddadwy (RTFO). Mae'r astudiaeth yn bwrw ymlaen yn dda ac ar fin dod i ben. Rhoddir ystyriaeth i ganlyniadau'r astudiaeth yng nghyd-destun yr arolwg o Raglen Newid Hinsawdd y DU yn nes ymlaen yn 2005.
Celloedd tanwydd	Mae'r DTI wedi cefnogi ymchwil a datblygu ym maes technoleg celloedd tanwydd er 1992, dan y Rhaglen Celloedd Tanwydd Datblygedig ar y pryd (sef rhan o'r Rhaglen Ynni Adnewyddadwy bryd hynny). Dan fenter SuperGen bydd ymchwil i gelloedd tanwydd yn derbyn £1,960K o gyllid dros y 4 blynedd nesaf. Bellach cefnogir ymchwil a datblygu ym maes celloedd tanwydd trwy Raglen Technoleg y DTI sy'n gwahodd cynigion i gydweithio ar gyfer ymchwil a datblygu ddwywaith y flwyddyn. Sefydlwyd Fuel Cells UK (www.fuelcellsuk.org) gyda chyllid dechreuol a ddarparwyd gan y DTI er mwyn cynorthwyo i ddatblygu a chynrychioli diddordebau Celloedd Tanwydd y DU.
Ffotofoltaidd (PV)	Cafodd y Rhaglen Arddangos PV Sylweddol ei hymestyn ym mis Medi 2005 gan dderbyn £6m tan fis Mawrth 2006. Dan y fenter SuperGen mae'r EPSRC yn noddi £3,092K o ymchwil dros y 4 blynedd nesaf.
Hydrogen	Ganol 2004 comisiynwyd tîm i ddatblygu fframwaith strategol ar gyfer ynni hydrogen. Adroddodd y rhain i'r DTI ym mis Rhagfyr 2004, gan nodi meysydd lle gallai hydrogen ateb galw tymor hir sylweddol ym mlaenoriaethau polisi ynni'r DU (cyhoeddwyd ar ffurf <i>'A Strategic Framework for hydrogen energy in the UK'</i>). Mae'r adroddiad hwn ac ymateb y Llywodraeth ar wefan y DTI yn: http://www.dti.gov.uk/energy/sepn/hydrogen.shtml

Math o ffynhonnell ynni/technoleg	Gweithredu arfaethedig neu ar waith er mwyn datblygu neu ddefnyddio
Tonnau a Llanw	<p>Datblygodd y DTI “<i>Cynllun Arddangos Ynni Tonnau a Llif Llanw</i>” ac eleni fe’i rhoddir ar waith. Bydd yn werth hyd at £42 million ac yn cefnogi’r ffermydd tonnau a llanw cyntaf ar raddfa fawr. Caiff hyn ei ariannu dan gronfa £50 miliwn y ‘<i>Marine Renewables Deployment Fund</i>’ a gyhoeddwyd y llynedd. Bydd ymchwil a datblygu dan arweiniad diwydiant yn parhau wrth wraidd hyn oll.</p> <p>I gyd-fynd â’r mentrau hyn a gweithgareddau eraill megis Consortiwm Morol ‘Supergen’ y Cynghorau Ymchwil a’r Ganolfan Ynni Morol Ewropeaidd fe fyddwn yn ceisio datblygu fframwaith strategol a fydd yn cyflwyno rhaglen o waith yn y meysydd canlynol: Ymchwil amgylcheddol (£2,609K); Adnoddau; Safonau a Seilwaith. Hefyd byddwn yn ceisio datblygu a sefydlu trefn gydsynio ar gyfer y prosiectau arddangos morol cyntaf.</p>
Cynhyrchu hydro	<p>Ar hyn o bryd, o’r ynni adnewyddadwy a ddarperir ar draws y Deyrnas Unedig, yn 2003 daeth tua 30% o bŵer hydro. Serch hynny, mae cyfleoedd i ddefnyddio’r dechnoleg hon o fewn y DU bellach yn prinhaus, nid yn unig gan fod y rhan fwyaf o’r safleoedd mwyaf atyniadol yn economaidd eisoes wedi’u defnyddio, ond hefyd gan fod pryderon amgylcheddol yn cyfyngu ar ddatblygu rhagor ar y dechnoleg hon.</p> <p>Mae’r Llywodraeth yn hyrwyddo’r syniad fod cartrefi a chymunedau yn defnyddio mwy o micro-hydro trwy ei gynllun grantiau cyfalaf “Clear Skies”. Mae’r Cyngor Ymchwil i Beirianeg a Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) hefyd yn cyllido £3,481K o ymchwil dros 4 blynedd.</p>
Microgynhyrchu	<p>Dechreuodd gwaith i ddatblygu strategaeth y Llywodraeth ar gyfer hyrwyddo microgynhyrchu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.dti.gov.uk/energy/consultations/microgen.pdf</p>
Ffynonellau geothermol	<p>Yn 2002 cyhoeddodd y Llywodraeth ‘<i>Asesiad o Ddewisiadau Technolegol i fynd i’r afael â Newid Hinsawdd – Adroddiad ar gyfer Uned Strategaeth y Prif Weinidog</i>’. Erys y gost yn gryn rwystr i ynni geothermol, eto mae iddo gryn botensial yn fyd-eang a byddwn yn dal i’w gadw dan ystyriaeth.</p>

Gwyddoniaeth a pheirianeg

- 6.2** Dan Adran 81 Deddf Ynni 2004 mae'n rhaid i ni hefyd adrodd ar "gynnal arbenigedd gwyddonol a pheirianyddol yn y DU ar gyfer datblygu ffynonellau ynni."
- 6.3** Ar hyn o bryd mae'r Cyngorau Ymchwil yn gwario tua £40m y flwyddyn ar ymchwil a datblygu trwy amrywiaeth o raglenni a mentrau – gan gynnwys SuperGen, Tuag at Economi Ynni Cynaliadwy (TSEC), Gweledigaeth Garbon (ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Garbon) a'r rhaglen Ymasiad.
- 6.4** Ar yr 2il o Fawrth 2004 cafwyd lansiad ffurfiol Cogent, sef Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y diwydiannau cemegol, niwclear, olew a nwy, petroliwm a pholymerau.

Dyma amcanion Cogent:

- Gwella cynhyrchiant a pherfformiad busnes trwy ddatblygu sgiliau;
- Lleihau bylchau sgiliau a phrinderau;
- Cynyddu'r cyfleoedd i roi hwb i sgiliau a chynhyrchiant;
- Dylanwadu ar gyflenwi sgiliau ar draws y sbectrwm, gan gynnwys prentisiaethau, addysg uwch a safonau galwedigaethol cenedlaethol.

Byddant hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) a sefydlwyd yn ddiweddar a'i gontractwyr er mwyn sicrhau y bydd y sgiliau angenrheidiol ar gael a hynny'n parhau.

- 6.5** Er mwyn cyflawni ein hymrwymiad i sicrhau y cedwir sylfaen o sgiliau niwclear uchel eu cymhwyster, rydym wedi sefydlu mesurau i gefnogi a datblygu'r sgiliau angenrheidiol. Bydd Cogent yn edrych yn strategol ar y sector niwclear er mwyn gwneud yn siwr y gall y sylfaen addysg a hyfforddiant fodloni anghenion y cyflogwyr niwclear nawr ac i'r dyfodol.
- 6.6** Sefydlodd Cogent y Cyngor Ymgynghorol Niwclear er mwyn sicrhau ei fod yn casglu safbwyntiau cyflogwyr a'u cadwyn gyflenwi. Fel hyn, bydd yn gallu amcangyfrif y galw, a gweld rhychwant materion yn ymwneud â chyflenwi addysg/hyfforddiant.

Ymchwil a Datblygu Ymholliad Niwclear

- 6.7** Fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i gadw'r dewis niwclear yn agored, rydym yn cydnabod fod i ymchwil rôl bwysig o ran cynnal lefel uchel o allu a gwybodaeth niwclear. O'r herwydd, rydym wedi sefydlu amrediad o fentrau sydd â rhan sylweddol i'w chwarae wrth i ni gyflawni yr ymrwymiad a nodwyd gennym yn y Papur Gwyn.
- 6.8** Rydym wedi sicrhau y bydd cyfleoedd ar gael i ymchwilwyr gymryd rhan mewn gwaith ymchwil sy'n archwilio amryfal faterion yn ymwneud ag ymholliad niwclear. Bydd hyn yn cael ei gynnal fel rhan o fenter y Cynghorau Ymchwil *Tuag at Economi Ynni Cynaliadwy*. Mae hyd at £6 miliwn o'r fenter hon yn cael ei hymrwymo i ymchwil ym maes ymholliad niwclear dros gyfnod o bedair blynedd.
- 6.9** Er mwyn bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ym maes ymchwil i ymholliad niwclear, ac yn rhan ohonynt, llofnododd y DU Gytundeb Fframwaith Generation IV ar 28 Chwefror. Bydd yn hwyluso rhoi cychwyn ar waith ymchwil rhyngwladol cydweithiol ar systemau adweithyddion datblygedig a fydd yn cynnig dewis ynni rhyngwladol digarbon i'r dyfodol (2030 a thu hwnt).
- 6.10** Mae cyfraniad y DU yn unol â pholisi'r Llywodraeth ar gadw'r dewis niwclear yn agored yn y tymor hirach, fel y nodwyd yn y Papur Gwyn ar Ynni. Bydd yn cefnogi sgiliau yn y DU a'r gallu sydd gennym i ddal yn gyfwrch â datblygiadau rhyngwladol, a hysbysu datblygiad polisi'r DU. Cytunwyd ar nawdd o hyd at £5 miliwn i'r DU gymryd rhan mewn ymchwil ryngwladol ar systemau adweithyddion datblygedig. Hefyd, mae'r Cynghorau Ymchwil yn rhoi £16m y flwyddyn tuag at ymchwil i ymasiad.

Effeithlonrwydd Ynni

Ymrwymadau

- Nododd y Papur Gwyn ar Ynni mai effeithlonrwydd ynni yw'r ffordd saffaf, fwyaf cost effeithiol o gyrraedd holl nodau'r polisi ynni, yn enwedig y nod cenedlaethol o leihau allyriadau carbon deuocsid erbyn 2010. Rydym yn disgwyl i fwy na hanner y lleihad mewn allyriadau yn ein Rhaglen Newid Hinsawdd bresennol – sef tua 10 MtC y flwyddyn erbyn 2010 – i ddod o effeithlonrwydd ynni. Ymhellach ymlaen, credwn y gall effeithlonrwydd ynni gyfrannu tua hanner yr arbedion ychwanegol o 15-25 MtC y mae'n debygol y bydd eu hangen arnom erbyn 2020.
- Ar 17 Tachwedd 2004, derbyniodd y Llywodraeth newidiad i'r Mesur Tai (Deddf Tai 2004 bellach) sy'n gosod rhwymedigaeth ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gymryd camau rhesymol i sicrhau cynnydd o 20% o leiaf yn effeithlonrwydd ynni preswyl yn Lloegr erbyn 2010 o linell sylfaen yn 2000 er mwyn tanlinellu'n gyhoeddus yr ymrwymiad cryf sydd gennym eisoes tuag at effeithlonrwydd ynni.

Yn fanwl

- Roedd 'Effeithlonrwydd Ynni: Cynllun y Llywodraeth ar gyfer Gweithredu', a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2004, yn pennu pecyn o fesurau ar gyfer cyflwyno newid cam yng ngwelliant effeithlonrwydd ynni ym mhob rhan o'r economi – er mwyn arbed 12 miliwn tunnell fetrig o garbon y flwyddyn erbyn 2010. Mae hyn yn gynydd o 20 y cant dros lefel yr arbedion a ragwelwyd adeg y Papur Gwyn a bydd yn arbed dros £3 biliwn y flwyddyn i gartrefi a busnesau'r DU ar eu biliau ynni.
- Roedd mesur allweddol yng nghynllun gweithredu 2004 yn cynnwys cyhoeddi ein bwriad i ddyblu lefel y gweithgarwch Ymrwymiad Effeithlonrwydd Ynni (EEC) o 2005 i 2011, yn amodol ar arolwg yn 2007. Disgwylir i hyn arwain at fuddsoddiad o dros £2 biliwn, gan arbed £4 biliwn i gwsmeriaid oddi ar eu biliau hyd 2020.
- Ar yr un pryd â'r Cynllun Gweithredu, cyhoeddodd Defra y *Strategaeth Gwres a Phŵer Cyfun (CHP)* ym mis Ebrill 2004, sy'n disgrifio fframwaith o fesurau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth i gefnogi twf mewn gallu CHP yn y DU, gan gynnwys eithrio CHP Ansawdd Da o'r Ardoll Newid Hinsawdd, ac mae'n ailadrodd ymrwymiad y Llywodraeth i'w tharged o fod wedi gosod gallu o 10,000 megawat o leiaf o CHP Ansawdd Da erbyn 2010. Rydym yn gweithio i hwyluso cyflwyniad y mesurau CHP presennol i'w heithaf gyda'r Diwydiant CHP. Mae rhai mesurau ôl-Strategaeth eisoes wedi'u cyflwyno eleni, gan gynnwys sicrhau dyfodol y rhaglen Ynni Cymunedol gyda £10m o gyllid ychwanegol; ac ymestyn y gostyngiad TAW ar gynlluniau micro-CHP yng Nghyllideb 2005.

- Daeth Gorchymyn Rhwymedigaethau Effeithlonrwydd Ynni Trydan a Nwy 2004 i rym ar 22 Rhagfyr 2004. Dyma'r ddeddfwriaeth ar gyfer yr Ymrwymiad Effeithlonrwydd Ynni (EEC) 2005-08, a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2005. Mae'r ail gam hwn o'r EEC ar tua dwbl lefel gweithgarwch EEC 2002-05 a bydd yn gyfraniad sylweddol at leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y sector cartrefi – disgwylir iddo arbed tua 0.7 miliwn tonnell fetrig o garbon y flwyddyn erbyn 2010.
- Yn dilyn ymrwymiad Papur Gwyn, sefydlwyd Gweithgor Gwasanaethau Ynni (ESWG) gydag Ofgem, Defra, DTI, cyflenwyr ynni ac eraill i archwilio'r ffordd orau o greu marchnad effeithiol mewn gwasanaethau ynni. Bu'r Grŵp yn ystyried y rhwystr ymddangosiadol a achosir gan y cyfnod o 28 diwrnod o rybudd y mae'n rhaid ei roi ar hyn o bryd, a'r angen i gadw digon o ryddid i ddewis ac elfen o warchod defnyddwyr ar gyfer y cwsmeriaid. Cynigiodd y Grŵp y dylid llacio'r rheol 28 diwrnod er mwyn hybu gwasanaethau ynni. Ym mis Mai 2004 lanswyd cynllun arbrofol i weld a ellir hepgor y rheol 28 diwrnod, ond gan sicrhau diogelwch digonol i ddefnyddwyr, a bydd yn parhau am ddwy flynedd.
- Yn ei Adroddiad Cyn y Gyllideb, cyhoeddodd y Canghellor gronfa newydd £20 miliwn i gefnogi arloesi technolegol ym maes technoleg effeithlonrwydd ynni. Bydd y gronfa newydd yn ganolbwynt ar gyfer buddsoddi cyhoeddus a phreifat mewn effeithlonrwydd ynni, a bydd yn helpu i lunio partneriaethau newydd rhwng arbenigwyr o fyd busnes, ymchwil a llunio polisi. Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon, sy'n rheoli'r gronfa, wrthi'n cwblhau datblygiad y gronfa mewn ymgynghoriad â'r Llywodraeth.
- Dyrannwyd rhagor o gyllid ar gyfer REEEP (Partneriaeth Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni) sef £2.5 miliwn yn 2005/6. Bellach mae gan REEEP Ysgrifenyddiaeth Ryngwladol yn Fienna a nifer o Ysgrifenyddiaethau Rhanbarthol. Mae'r rhain yn esgor ar nifer fawr o brosiectau arloesol – dros 280 o ragor na 60 o wledydd dan y rownd fidiau ddiweddaraf.
- Er mwyn helpu i gyfrannu gwybodaeth at Arolwg y Rhaglen Newid Hinsawdd, cyhoeddodd y Canghellor yn ei Adroddiad Cyn y Gyllideb ym mis Rhagfyr y cynhelir Arolwg Arloesi ym maes Effeithlonrwydd Ynni ar y cyd rhwng Defra/HMT. Mae'r Arolwg hwn yn edrych ar y ffyrdd gorau y gallai arloesi technolegol, polisi, cyllido ac ymddygiad gyfrannu at y newid cam tymor hir mewn effeithlonrwydd ynni yr ydym wedi ymrwymo iddo.
- Cyhoeddwyd drafft cyntaf y Côd ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy tua'r un pryd â'r Uwchgynhadledd Cymunedau Cynaliadwy ym mis Ionawr. Bydd y Côd yn pennu'n eglur y gofynion penodedig ar gyfer lleiafswm perfformiad o ran effeithlonrwydd ynni, dŵr ac adnoddau er mwyn annog arloesi ym maes dylunio adeiladau ac adeiladu. Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) sy'n arwain y broses hon gan gydgysylltu'n agos â Defra, Adrannau eraill y Llywodraeth, Diwydiant a budd-ddeiliaid allweddol.

- Ym mis Chwefror 2005 cyhoeddodd Defra fenter £12 miliwn ar Gyfathrebiadau Newid Hinsawdd dros y 3 blynedd nesaf i newid agweddau'r cyhoedd at newid hinsawdd. Ymhlith rhannau allweddol y fenter newydd, mae cronfa newydd i gefnogi gweithgareddau ar lefel leol a rhanbarthol, pecyn ar gyfer cyfathrebwyr a gwefan newydd.
- Yng Nghyllideb 2005 cyhoeddwyd mesurau cyllidol newydd i gefnogi effeithlonrwydd ynni: cyfradd is ar gyfer mewnosod gwres a phŵer micro-gyfunol (micro-CHP) gan ymestyn y cyfraddau is i bympiau gwres sydd â ffynonellau aer hefyd; ymestyn y cynllun Lwfans Arbedion Ynni Landlordiaid – sy'n gymhelliad clir i landlordiaid wella effeithlonrwydd ynni eu tai – i gynnwys ynysu waliau solid; thema effeithlonrwydd ynni dan rownd 2005-06 y Gyllideb Buddsoddi i Arbed (ISB); ac ymrwymiad gan yr HMT i gynnull uwchgynhadledd yn ddiweddarach eleni i archwilio datblygiad marchnadoedd gwasanaethau ynni yn y DU.

Edrych ymlaen at 2005-06

Ymhlith y datblygiadau a ddisgwylir yn y flwyddyn sydd i ddod, mae:

- Lansio'r Rheoliadau Adeiladu newydd;
- Lansio'r Côt ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy – O fis Ebrill 2006, bydd yr holl gartrefi newydd sy'n derbyn cyllid gan y llywodraeth yn bodloni'r Côt newydd ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy, a byddwn yn annog awdurdodau lleol i gymhwyso safonau tebyg ar gyfer tai preifat. Mae'r Llywodraeth yn anelu at gyflwyno dogfen ymgynghori ffurfiol yn ddiweddarach eleni a chyhoeddi'r Côt ddechrau 2006.
- Cyhoeddwyd y bydd mwy o gyllid ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (£10m) a'r Ymddiriedolaeth Garbon (£60m) ar gyfer y tair blynedd nesaf.
- Dechrau'r gronfa technoleg effeithlonrwydd ynni gydag £20 miliwn;
- Darfod yr Arolwg Arloesi ym maes Effeithlonrwydd Ynni.
- Ar 7 Rhagfyr 2004 cyhoeddodd Gweithrediaeth yr Alban ei bwriad i gyhoeddi strategaeth effeithlonrwydd ynni ar gyfer yr Alban. Y nod yw sefydlu fframwaith, diffinio amcanion a chreu ymdriniaeth fwy cydlynol ar gyfer ymyriadau effeithlonrwydd ynni gan y Weithrediaeth. Mae'r Weithrediaeth yn disgwyl cyhoeddi'r strategaeth erbyn diwedd 2005.

Cyd-weithgor ar Ynni a'r Amgylchedd

Sefydlodd y DTI, Defra ac Ofgem y Cyd-weithgor ar Ynni a'r Amgylchedd yn 2003, gan gyflawni ymrwymiad yn y Papur Gwyn ar Ynni (paragraff 9.15). Cyfarfu'r Grŵp, sydd hefyd yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Trysorlys Ei Mawrhydi a'r gweinyddiaethau datganoledig, am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2003 a hyd yma cafwyd saith cyfarfod. Trafodwyd amrywiaeth eang iawn o faterion amgylcheddol yn

ymwneud â'r diwydiannau nwy a thrydan, a thrwy gynnig fforwm ar gyfer trafod materion o'r natur hwn ar lefel uwch gwnaeth gyfraniad pwysig at y Rhwydwaith Polisi Ynni Cynaliadwy a datblygiad polisiau mewn ffordd gydlynol.

Ymhlith y materion a gafodd sylw gan y Grŵp y mae methodolegau ar gyfer asesu effeithiau amgylcheddol nwy a thrydan ac, yn neilltuol, yr arfer gorau wrth gynllunio asesiadau effaith amgylcheddol. Rhoddwyd sylw i faterion seilwaith, gan gynnwys cyfraniad micro-gynhyrchu yn y dyfodol a'r duedd tuag at gynhyrchu â mwy o ddosbarthiad. Ar ochr technoleg, mae'r Grŵp yn monitro gwaith gan amryfal asiantaethau i edrych ar y cyfleoedd ar gyfer biliau a mesuryddion a fydd yn helpu cwsmeriaid reoli eu hynni yn fwy effeithiol.

Mae'r Grŵp hefyd wedi ysgogi gwaith newydd i ddatblygu dangosyddion i ddangos cynnydd tuag at dargedau amgylcheddol, gan gynnwys gwybodaeth am wahanol sectorau'r economi ac effaith gwahanol dechnolegau a mesurau polisi. Sefydlwyd Is-grŵp Dangosyddion ar wahân er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Mae'r Grŵp yn gweithio'n agored a cheir set gyfan o'i bapurau a'i drafodaethau yn: <http://www.dti.gov.uk/energy/environment/jwgee/jwgee.shtml>

Ar y wefan hon mae adroddiadau am ddatblygiad y dangosyddion ar gyfer effeithiau amgylcheddol y diwydiannau nwy a thrydan a ddatblygwyd gan yr Is-grŵp Dangosyddion. Eisoes mae yna ddangosyddion ar gyfer y sector domestig ac amlinellwyd cynlluniau ar gyfer y sectorau diwydiannol, trafndiaeth a gwasanaethau.

Ar y wefan hefyd mae gwybodaeth am raglen waith eang y Grŵp i'r dyfodol. Mae'r rhaglen yn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â rheoleiddio'r diwydiannau nwy a thrydan, eu seilwaith a thechnolegau sy'n ymddangos; datblygiad pellach ym maes masnachu allyriadau a materion strategol eraill.

